# Cronfa Bensiwn Gwynedd

www.CronfaBensiwnGwynedd.org.uk

Dychwelir i: Pensiynau,
Cyngor Gwynedd,
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
Gwynedd,
LL55 1SH

## Ffurflen ymddeol

### Nodiadau

**Darllenwch yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen sydd drosodd**

**Mae'n rhaid cwblhau pob rhan o'r ffurflen drosodd cyn y gellir talu eich buddion pensiwn**. Bydd llenwi'r ffurflen yn gywir yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i Gronfa Bensiwn Gwynedd i gyfrifo a thalu eich buddion pensiwn yn gywir ac yn brydlon.

**Rhan 1 - Gwybodaeth amdanoch chi**

**Rhan 2 - Statws priodasol**
Wrth ddatgan eich statws priodasol, mae'n bwysig ein bod yn derbyn y tystysgrifau a ofynnwyd amdanynt. Os ydych wedi eu gyrru o'r blaen, nodwch hynny ar y ffurflen.

**Rhan 3 - Opsiwn i gyfnewid i lwfans ymddeol**
- Mae gennych yr opsiwn i gynyddu eich lwfans ymddeol drwy gyfnewid peth o'ch pensiwn blynyddol. Mae'r lwfans ymddeol yn cael ei gynyddu £12 am bob £1 o bensiwn sydd yn cael ei gyfnewid.
- Mae'n bwysig fod y rhan yma yn cael ei gwblhau er mwyn cadarnhau faint o bensiwn blynyddol yr ydych yn dymuno'i gyfnewid, neu i gadarnhau eich dymuniad i beidio cyfnewid o gwbl.
- Ni fydd cyfnewid pensiwn yn effeithio unrhyw fuddion goroeswr a allai fod yn daladwy yn dilyn eich marwolaeth.
- **Nid yw'n bosib newid y penderfyniad yma.** Ystyriwch y penderfyniad yn ofalus, a chysylltwch ag ymgynghorydd ariannol annibynnol os ydych angen unrhyw gyngor.

**Rhan 4 - Manylion banc / cymdeithas adeiladu**
Bydd eich pensiwn a'ch lwfans ymddeol yn cael ei dalu i mewn i'r cyfrif sydd yn cael ei nodi yn y rhan yma.

**Rhan 5 - Datganiad lwfans einioes**
I sicrhau cydsyniad gydag anghenion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) mewn perthynas â threthadwyedd hawliau pensiwn, mae'n **rhaid** i chi lenwi'r datganiad dros y dudalen yn llawn. Dylech ddatgelu manylion am **bob** un o'ch hawliau pensiwn (ac eithrio pensiwn y wlad), hyd yn oed os ydynt eisoes yn daladwy neu beidio.

Defnyddir y wybodaeth i sefydlu os fydd eich hawliau o Gronfa Bensiwn Gwynedd, wrth eu cyfrif ynghyd â'ch hawliau pensiwn eraill, yn debygol o ragori'r **Lwfans Einioes (LE)**.

Y **Lwfans Einioes** yw'r terfyn statudol ar gyfanswm hawliau pensiwn y gall unrhyw berson dderbyn gostyngiad treth arno. Bydd pob budd pensiwn yn cyfrif tuag at y Lwfans Einioes, yn cynnwys pensiynau galwedigaethol a phersonol, ac eithrio unrhyw bensiwn gweddw neu ddibynnydd.

Pe bai cyfanswm gwerth eich hawliau pensiwn yn fwy na'r Lwfans Einioes, bydd eich hawliau pensiwn yn drethadwy - yn ychwanegol i'r dreth incwm arferol a delir ar eich pensiwn pan ddaw yn daladwy.

**Rhan 6 - Datganiad ynglŷn ag ailgylchu lwfans ymddeol**
Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) yn gofyn i chi nodi os ydych yn bwriadu defnyddio eich lwfans ymddeol i gynyddu unrhyw gyfraniadau i gronfa bensiwn arall. Mae arwyddo rhan 7 yn cadarnhau nad ydych yn bwriadu gwneud hynny.

Dychwelir i: Pensiynau,
Cyngor Gwynedd,
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
Gwynedd,
LL55 1SH

# Ffurflen ymddeol

**Mae'n rhaid cwblhau a dychwelyd y ffurflen hon cyn y gellir talu unrhyw fuddion pensiwn.**

## Rhan 1 - Gwybodaeth amdanoch chi

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw llawn:** | | **Teitl:** | |
| **Dyddiad geni:** | | **Rhif Y.G:** | |
| **Cyfeiriad:** | | | |
| | | **Cod post:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | | **Rhif ffôn:** | |

## Rhan 2 - Statws priodasol

Ticiwch y blwch perthnasol:

**Ym mhob sefyllfa, mae angen anfon copi o'ch tystysgrif geni cyn y gellir talu unrhyw fuddion pensiwn.**

- ☐ **Yn sengl**: anfonwch gopi o'ch tystysgrif geni.
- ☐ **Yn briod**: anfonwch gopi o'ch tystysgrif geni a phriodas, a thystysgrif geni eich priod.
- ☐ **Mewn partneriaeth sifil**: anfonwch gopi o'ch tystysgrif geni, datganiad sifil, a chopi o dystysgrif geni eich partner.
- ☐ **Cyd-fyw gyda phartner**: anfonwch gopi o'ch tystysgrif geni, ac fe anfonwn ffurflen datgan partneriaeth cyd-fyw.
- ☐ **Wedi ysgaru**: anfonwch gopi o'ch tystysgrif geni a'ch archddyfarniad absoliwt.
- ☐ **Ymwahaniaeth barnwrol**: anfonwch gopi o'ch tystysgrif geni a'ch gorchymyn ymwahaniaeth barnwrol ac, os yn berthnasol, y gorchymyn cynnal.
- ☐ **Gweddw**: anfonwch gopi o'ch tystysgrif geni ac o dystysgrif marwolaeth eich diweddar briod.

## Rhan 3 - Opsiwn i gyfnewid lwfans ymddeol (ticiwch y blwch perthnasol)

- ☐ **Opsiwn 1:** Nid wyf yn dymuno newid **dim** o fy mhensiwn blynyddol i lwfans ymddeol
- ☐ **Opsiwn 2:** Hoffwn gyfnewid y **mwyafswm** o fy mhensiwn blynyddol i lwfans ymddeol
- ☐ **Opsiwn 3:** Hoffwn gyfnewid £___________ o fy mhensiwn blynyddol i lwfans ymddeol

## Rhan 4 - Manylion banc / cymdeithas adeiladu

| | |
|---|---|
| **Enw banc / cymdeithas adeiladu:** | |
| **Cyfeiriad banc / cymdeithas adeiladu:** | |
| **Cod didoli:** | ☐☐☐☐☐☐ |
| **Rhif y cyfrif:** | ☐☐☐☐☐☐☐☐ |
| **Rhif rôl (cymdeithas adeiladu yn unig):** | ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐ |

Dychwelir i: Pensiynau,
Cyngor Gwynedd,
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
Gwynedd,
LL55 1SH

## Rhan 5 - Datganiad lwfans einioes

Cwblhewch y rhan yma os ydych eisoes yn derbyn unrhyw bensiwn, gan roddi gwerth gros y swm(symiau) blynyddol sydd yn daladwy ar y dyddiad byddwch yn tynnu'r buddion o Gronfa Bensiwn Gwynedd, ynghyd â'r dyddiad dechrau talu'r pensiynau hynny:

| Enw a chyfeiriad y cynllun / darparwr | Dyddiad dechrau | Swm blynyddol (£) | LE % |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

Cwblhewch y rhan yma os ydych wedi derbyn taliad unwaith ac am byth i gynrychioli pensiwn pitw a gyfnewidiwyd, gan gynnwys y dyddiad tynnu'r buddion a'r symiau a dderbyniwyd:

| Enw a chyfeiriad y cynllun / darparwr | Dyddiad | Swm | LE % |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

Cwblhewch y rhan yma os oes gennych hawliau pensiwn sydd heb ddod yn daladwy, gan roddi dyddiad(au) pryd y disgwylir i'r buddion ddod yn daladwy, a'u gwerth (pensiwn a lwfans ymddeol mewn cynllun galwedigaethol, neu'r gwerth(oedd) cronfa mewn unrhyw fath arall o gynllun) ar y dyddiad daw eich buddion o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn daladwy:

| Enw a chyfeiriad y cynllun / darparwr | Dyddiad yn daladwy | Pensiwn | Lwfans ymddeol | Gwerth y gronfa | LE % |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |

## Rhan 6 - Datganiad ynglŷn ag ailgylchu lwfans ymddeol

Rwyf yn datgan **nid** yw yn fwriad gennyf i gymryd y lwfans ymddeol rhydd o dreth allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol er mwyn cynyddu fy nghyfraniadau i un neu fwy o gynlluniau pensiwn cofrestredig. Deallaf mai wrth wneud hyn byddaf yn atebol i daliadau treth neu ordollau.

## Rhan 7 - Datganiad

Rwyf i, y llofnodwr isod, yma'n datgan fod y wybodaeth uchod, cyn belled y gwyddwn, yn ddatganiad llawn, gwir a chywir o'm hawliau pensiwn o bob ffynhonnell. Rwyf hefyd yn datgan fy mhenderfyniad yn rhan 3, ac yn gwirio bod rhan 6 yn gymwys i mi.

| | |
|---|---|
| | |
| *Llofnodwch yma* | *Dyddiad* |